

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

11 Mai 2016

Yn Bresennol: Cynghorydd M Williams (Cadeirydd)
Mr D Ellis, Mrs G Hayward, Cynghorydd M James, Cynghorydd L
Jenkins a'r Cynghorydd R Owens.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.55am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth Mr A Archer, Cynghorydd RM Lewis a'r Cynghorydd DWM Rees

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24^{ain} o Chwefror 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 24^{ain} o Chwefror 2016.

[Nid oedd y Cynghorydd R Owens yn bresennol adeg trafod yr eitem ganlynol.]

4. Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2015/16

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Robin Pritchard, Cyfarwyddwr Ymgysylltu cwmni Gateway Assure, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, a'i wahodd i gyflwyno'r adroddiad. Esboniodd Mr Pritchard bod yr adroddiad yn crynhoi canlyniad gwaith a gwblhawyd yn erbyn cynllun archwilio gweithredol 2016/17 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor. Y farn gyffredinol am y flwyddyn oedd bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli risg a phrosesau llywodraethu a rheoli digonol ac effeithiol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y gwasanaeth archwilio mewnol wedi adolygu nifer o feysydd yn ystod y flwyddyn - rheoli risg, rheolaeth gyllidebol, iechyd a diogelwch, llywodraethu corfforaethol a chynhyrchu incwm, a bod y canlyniadau wedi'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor mewn dwy gyfran yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd y prif ganfyddiadau ynghlwm wrth yr adroddiad, a byddai'r rhain yn cael eu dilyn ymhellach fel rhan o archwiliad 2016/17.

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch yr argymhelliad bod yr Awdurdod yn gwneud archwiliad o sgiliau'r Aelodau gan y nodwyd hyd yn oed os oedd



setiau penodol o sgiliau wedi'u clustnodi yn rhai oedd eu hangen, ychydig iawn o ddylanwad oedd gan yr Awdurdod dros y rhai a benodir ar yr Awdurdod, naill ai gan y Cyngor Sir neu gan Lywodraeth Cymru.

NODWYD.

5. Strategaeth Archwilio Mewnol 2016/17 i 2018/19

Eglurodd yr archwilydd mewnol bod y strategaeth archwilio mewnol yn nodi asesiad o angen archwilio, gan gyfeirio adnoddau i'r agweddau hynny o'r sefydliad gafodd eu hasesu fel y rhai sy'n esgor ar y risg mwyaf i allu cyflawni ei amcanion. Roedd yr adroddiad yn nodi'r broses o bennu hyd a lled yr angen hwnnw, gan arwain at y meysydd y byddai'r archwiliad mewnol yn canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod 2016/17 i 2018/19. Nodwyd bod y strategaeth oedd gerbron y Pwyllgor yn cario ymlaen y cynlluniau gafodd eu hystyried yn y strategaeth ddrafft ar gyfer 2015/16 i 2017/18.

Roedd y cynllun blynyddol ar gyfer 2016/17 wedi'i nodi yn atodiad B i'r adroddiad, a byddai'n edrych ar adolygu'r swyddogaethau cefn swyddfa, rheolaethau ariannol allweddol, llywodraethu gwybodaeth, rheoli perfformiad, llywodraethu corfforaethol a ffioedd cynllunio cyn ymgeisio, ynghyd â dilyniant i archwiliad 2015/16. Byddai hyn eto yn cael ei wneud mewn dwy gyfran, a rhagwelwyd y byddai'r canlyniadau yn cael eu dwyn gerbron y Pwyllgor fis Tachwedd 2016 a mis Chwefror 2017.

Barnai'r Aelodau y byddai adolygiad o'r ffioedd cynllunio cyn ymgeisio yn ddefnyddiol gan fod rhywfaint o bryder ynghylch cyflwyno'r strwythur ffioedd a'r modd y byddai hyn yn effeithio ar y cyngor a geisir gan aelodau'r cyhoedd a'r pwysau ar y staff. Serch hynny, cydnabyddwyd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod weithredu'r system newydd. Hefyd holodd yr Aelodau a ellid codi tâl ychwanegol ar geisiadau ôl-weithredol, ac er bod y swyddogion wedi nodi y byddai gofyn cael deddfwriaeth ar gyfer hyn, cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei archwilio drwy'r cysylltiadau rhwng y swyddogion â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru.

NODWYD.

6. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16

Dywedwyd mai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol oedd y cyfrwng i ddangos llwyddiant yr Awdurdod o ran cyflawni gwelliant parhaus mewn perfformiad, systemau a phrosesau rheoli a glustnodwyd, ac amlygu'r materion llywodraethu oedd angen talu sylw iddynt. Roedd y Pwyllgor wedi ystyried y Datganiad yn ei gyfarfod blaenorol, ac o ganlyniad roedd newidiadau wedi'u gwneud yn y ddogfen ynglŷn ag agendâu cyfarfodydd electronig/di-bapur ac ar effaith Safonau'r Gymraeg a gallu'r Awdurdod i gydymffurfio â'r safonau hynny. Roedd y Datganiad felly wedi dod yn ôl



gerbron y Pwyllgor cyn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w gymeradwyo.

Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach ar y Datganiad.

NODWYD.

7. Adroddiad ar Berfformiad am y Flwyddyn oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2016

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad adroddiad ar berfformiad Gwasanaethau Corfforaethol yr Awdurdod am y flwyddyn ariannol hyd yn hyn. Ynghlwm wrth yr adroddiad, ac a gyflwynwyd hefyd yn y cyfarfod, oedd y camau gweithredu a'r mesurau allweddol o fewn y Gwasanaethau Corfforaethol, ac roedd y rhain yn dangos bod cynnydd da wedi'i wneud ar bron pob un o'r mesurau a'r camau gweithredu, ac mai ond un oedd yn dangos 'coch', er nad oedd hyn yn adlewyrchiad o berfformiad ond yn gysylltiedig â chynnydd mewn digwyddiadau lechyd a Diogelwch o ganlyniad i annog lefelau uwch o roi gwybod am y digwyddiadau hyn. Roedd yr ychydig gamau gweithredu hynny oedd wedi'u dangos fel 'melyn' naill ai'n gyfyngedig oherwydd blaenoriaethau eraill neu'n ddibynnol ar gamau gweithredu y tu allan i'r Awdurdod.

Hefyd roedd y mesurau oedd yn ymwneud â Rheoli Datblygu wedi'u dwyn gerbron y Pwyllgor, ac roedd y rhain yn dangos gostyngiad bychan yn nifer y ceisiadau a benderfynwyd o fewn 8 wythnos. Fodd bynnag, roedd y tîm wedi bod heb Bennaeth Rheoli Datblygu yn ystod y cyfnod hwn, ac ar y cyfan nid oedd y ffigurau yn peri unrhyw bryder.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar berfformiad.

8. Cofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dîm y Rheolwyr a gan Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod pan gafodd y cynnydd diweddar a'r newidiadau eu nodi.

Nid oedd unrhyw risgiau wedi newid digon i gyfiawnhau newid yn lefel y risg. Fodd bynnag, ers yr adroddiad diwethaf roedd tri risg wedi gostwng ychydig, a nodwyd gan y saeth i lawr, ond nid yn ddigon i newid lliw'r lefel risg.

Roedd yr Aelodau'n falch i nodi bod methu â chydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg yn cael ei ystyried yn risg isel, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr bod prosesau wedi cael eu rhoi ar waith i geisio sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau. Fodd bynnag nid oedd unrhyw system yn ddi-fai.



O ran y risg o fethiant mawr yn y dechnoleg gwybodaeth neu'r risg o ddirodddef ymosodiad feirws, gofynnodd yr Aelodau am i darged y risg gael ei newid o liw coch i liw melyn er mwyn anelu at ganlyniad mwy cadarnhaol.

I gloi, nododd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Pwyllgor y byddai'r Rheolwr Busnes a Pherfformiad yn ei fynychu, a diolchodd iddo am ei waith caled mewn amgylchiadau anodd ar brydiau.

NODWYD.

9. Man Gwerthu Electronig (EPOS) – Adroddiad ar Weithredu'r System 2015/16

Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod yr adroddiad hwn yn adolygiad ar ddiwedd cwblhau prosiect a ddarparwyd gan KCPOS oedd wedi gosod y system mewn Canolfannau Gwybodaeth a Chanolfannau Treftadaeth yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn adolygu perfformiad y prosiect yn erbyn amcanion gwreiddiol y prosiect, ac yn ogystal ag edrych a oedd yr amcanion hyn wedi'u gwireddu, roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am unrhyw waith oedd heb ei gwblhau neu risgiau parhaus o barhau i ddefnyddio'r system EPOS.

Daethpwyd i'r casgliad bod tiliau presennol wedi cael eu disodli yn llwyddiannus, gan ganiatáu i'r system EPOS integreiddio'n uniongyrchol â system gyllid yr Awdurdod, gan osgoi'r angen am i'r data gael ei ail-deipio. Nodwyd y byddai mân faterion yn cael eu datrys pan ddarperir hyfforddiant pellach yn y dyfodol agos.

NODWYD.

10. Perfformiad y Gyllideb

Eglurodd y Rheolwr Cyllid nad oedd y datganiad diwedd blwyddyn wedi'i gwblhau eto ond y byddai wedi'i gwblhau erbyn y dyddiad terfyn ddiwedd mis Mehefin. O edrych ar y ffigurau incwm, roedd gwerthiant nwyddau i fyny yn erbyn y gyllideb gyffredinol, er bod y ffigurau ar gyfer Oriel y Parc i lawr; roedd dadansoddiad pellach o hyn wedi dangos mai'r rheswm am hyn oedd cynnydd yn yr incwm o arddangosfa Peter Blake y flwyddyn flaenorol. Roedd ffioedd mynediad i fyny yn y canolfannau yn enwedig yng Nghaeriw. Hefyd roedd incwm meysydd parcio i fyny, ac roedd yr elfennau hyn, ynghyd â'r cynnydd yn incwm ystadau, ffioedd cynllunio, referniw hysbysebu yn Coast to Coast ac arbedion sylweddol, wedi cyfrannu at arian mewn llaw yn y gyllideb am y flwyddyn o £494,000.

Holodd yr Aelodau am berfformiad gwael Maes Parcio Trefdraeth, ac eglurodd y swyddogion bod y tir wedi cael ei brydlesu oddi wrth y clwb golff yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid oedd y brydles wedi'i hadnewyddu, ac yn lle hynny, roedd y clwb golff yn rhedeg eu maes



parcio eu hunain ar y traeth. Roedd gan yr Awdurdod ddyhead hirdymor i atal parcio ar y traethau. Fodd bynnag, byddai trafodaethau â'r gymuned yn parhau ynglŷn â'r sefyllfa gymhleth hon.

Gan droi at y gyllideb gyfalaf, roedd £147,000 wedi'i wario yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth. Roedd hyn yn cynnwys gwariant yn ychwanegol at y gyllideb ar adnewyddu'r fflyd cerbydau, prynu ffust a pheiriant torri porfa, ac ar do Melin Caeriw. Nid oedd yr Aelodau yn hapus â'r contractwr oedd wedi gwneud y gwaith toi gan fod y gost yn sylweddol uwch na'r tendr a gyflwynwyd. Cytunodd y swyddogion eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac y byddent yn adolygu proses dendro yr Awdurdod.

Roedd y sleid olaf a gyflwynwyd yn dangos sefyllfa cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Byddai'r arian mewn llaw yn y gyllideb yn cael ei ychwanegu at gronfeydd wrth gefn oedd wedi'u clustnodi ar gyfer ailstrwythuro staff, a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Hefyd roedd cronfa wrth gefn wedi'i chreu ar gyfer gorfodaeth cynllunio.

NODWYD.

11. Monitro'r Cyfryngau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Swyddog Cyfathrebu a roddodd gyflwyniad ar waith yr Awdurdod yn monitro'r cyfryngau. Eglurodd bod 'monitro'r cyfryngau' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sut oedd yr Awdurdod yn monitro ac yn dadansoddi deunydd ar-lein (digidol), deunydd print (papurau newydd a chylchgronau yn bennaf), ac adroddiadau ar radio a theledu ar Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r Awdurdod. Roedd monitro'r cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter yn bennaf) yn is-faes o ddeunydd digidol oedd yn cael ei fonitro. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio gwasanaeth a ddarperir gan Gorkana oedd yn chwilio'r cyfryngau am eiriau allweddol a ddarperir gan swyddogion. Hefyd roedd y staff yn monitro'r papurau newydd lleol yn ddyddiol. Gellid wedyn gyflwyno'r adroddiadau yn y cyfryngau i'r swyddogion ar fater penodol. Hefyd gellid rhannu toriadau o'r wasg gyda staff gan fod yr Awdurdod yn prynu trwyddedau gan yr Awdurdod Trwyddedu Papurau Newydd a gan yr Awdurdod Trwyddedu Hawlfraint sy'n eu galluogi i wneud hynny.

Roedd tôn yr adroddiadau - cadarnhaol, negyddol neu niwtral - hefyd yn cael ei gofnodi, ac yn y flwyddyn ddiwethaf dywedwyd bod nifer isel o eitemau negyddol yn y cyfryngau, gyda chyfartaledd o 1.3 o erthyglau y mis. Fodd bynnag, yn y 12 mis diwethaf bu pedwar mis heb unrhyw sylw negyddol am yr Awdurdod.

Gwnaed llawer o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, oedd i bob pwrpas yn gyfrwng rhad ac am ddim o hyrwyddo'r Parc. Cafodd y defnydd ei



fonitro yn fewnol drwy gydol y dydd, gan gynnwys dros y penwythnos, gan y gallai llawer iawn o niwed gael ei wneud mewn amser byr os oedd sylwadau negyddol yn cael eu gwneud a heb ymateb gan yr Awdurdod. Roedd nifer o 'hoffi' ac 'ail-tweets' hefyd yn cael eu dadansoddi.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am gyflwyniad diddorol.

NODWYD.

12. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor am eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

